**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0217/23

To:
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Heddluoedd Cymru

Copies to:
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru
Prif Gwnstabliaid Heddluoedd yng Nghymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

31 Ionawr 2023

Annwyl Gomisiynwyr,

**Setliad Terfynol yr Heddlu 2023-24**

Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu o elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Terfynol yr Heddlu 2023-24 ar gyfer heddluoedd Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru.

Cadarnhaodd y Swyddfa Gartref y bydd holl heddluoedd Cymru yn cael cynnydd o 0.3% mewn cyllid craidd yn 2023-24, cyn yr addasiad a wneir ar gyfer trosglwyddo cyllid y Gangen Arbennig, o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Cyfraniad Llywodraeth Cymru i'r Setliad ar gyfer Cymru yw £113.47 miliwn. Fel yn 2022-23, mae'r Cyllid ar gyfer y Gangen Arbennig wedi'i drosglwyddo allan o Brif Grant yr Heddlu i'r Grant Plismona Gwrthderfysgaeth a ni fydd y trosglwyddiad yn cael unrhyw effaith net ar yr heddluoedd.

**Yn Atodiad A** ceir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer yr holl heddluoedd yng Nghymru. Nid yw'r dyraniadau i heddluoedd unigol wedi newid ers y Setliad Dros Dro.

Mae Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2023-24 (Setliad Terfynol – Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) a gyhoeddwyd heddiw wedi'i amserlennu i'w drafod yn y Senedd ar 14 Chwefror 2023.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglyn a'r llythyr hwn, byddwch cystal â chysylltu â'r Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd drwy LGFPSettlement@llyw.cymru.

Yn gywir

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A: Setliad Terfynol Heddlu ar gyfer Cymru, 2023-24

### Tabl 1a: Asesiad o Wariant Safonol (£ miliwn)[1]

| Heddlu | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 36.618 | 37.049 | 37.492 | 33.904 | 34.686 |
| Gwent | 54.593 | 55.236 | 55.896 | 50.547 | 51.716 |
| Gogledd Cymru | 52.743 | 53.377 | 54.012 | 48.845 | 50.094 |
| De Cymru | 127.269 | 128.757 | 130.295 | 117.826 | 120.437 |
| **Cyfanswm** | **271.223** | **274.419** | **277.694** | **251.122** | **256.934** |

### Tabl 1b: Cyllid Allanol Cyfun (Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol) (£ miliwn)[1]

| Heddlu | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 13.355 | 13.150 | 13.030 | 8.667 | 8.492 |
| Gwent | 31.701 | 31.790 | 31.857 | 25.939 | 26.069 |
| Gogledd Cymru | 22.496 | 22.614 | 22.523 | 16.513 | 16.334 |
| De Cymru | 75.848 | 75.845 | 75.989 | 62.352 | 62.575 |
| **Cyfanswm** | **143.400** | **143.400** | **143.400** | **113.470** | **113.470** |

### Tabl 1c: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£ miliwn)[1, 2, 3]

| Heddlu | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 36.993 | 40.967 | 44.497 | 52.272 | 52.659 |
| Gwent | 41.287 | 46.660 | 51.539 | 62.401 | 62.579 |
| Gogledd Cymru | 50.738 | 56.101 | 61.153 | 72.125 | 72.612 |
| De Cymru | 84.864 | 96.895 | 107.639 | 132.165 | 132.617 |
| **Cyfanswm** | **213.882** | **240.622** | **264.828** | **318.964** | **320.465** |

### Tabl 1d: Cyfanswm Cymorth Canolog (£ miliwn)[3]

| Heddlu | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 50.348 | 54.116 | 57.528 | 60.939 | 61.150 |
| Gwent | 72.988 | 78.451 | 83.396 | 88.341 | 88.647 |
| Gogledd Cymru | 73.234 | 78.715 | 83.677 | 88.638 | 88.946 |
| De Cymru | 160.712 | 172.740 | 183.629 | 194.517 | 195.192 |
| **Cyfanswm** | **357.282** | **384.022** | **408.228** | **432.434** | **433.935** |

### Tabl 1e: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (y cant)[3]

| Heddlu | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 2.1 | 7.5 | 6.3 | 5.9 | 0.3 |
| Gwent | 2.1 | 7.5 | 6.3 | 5.9 | 0.3 |
| Gogledd Cymru | 2.1 | 7.5 | 6.3 | 5.9 | 0.3 |
| De Cymru | 2.1 | 7.5 | 6.3 | 5.9 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **2.1** | **7.5** | **6.3** | **5.9** | **0.3** |

Nodiadau:

1. Yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2015, bu'r Swyddfa Gartref yn trosglwyddo cyllid yn flynyddol i Lywodraeth Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru ddarparu'r cyfraniad y cytunwyd arno ar ei chyfer at gyllid yr heddlu yng Nghymru. O 2022-23 ymlaen, ni chaiff y cyllid ychwanegol hwn ei drosglwyddo mwyach. Yn hytrach, y Swyddfa Gartref sy'n ei ddarparu drwy Grant yr Heddlu a'r Grant Atodol. O ganlyniad i hyn, bu cyfraniad Llywodraeth Cymru at blismona £29.93m yn llai y llynedd, ac mae hyn wedi ei bennu ar gyfer 2023-24 a blynyddoedd i ddod. Newid gweinyddol yn unig yw hwn, ac nid yw'n golygu unrhyw newid yn y cyllid cyffredinol ar gyfer unrhyw Heddlu.

2. Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 o Adroddiad Grant yr Heddlu sy’n cynnwys y dyraniad o dan ‘Prif Fformiwla’ ac ‘Ychwanegu Rheol 1’ (colofnau a a b) ynghyd â swm y ’cyllid gwaelodol’ a sicrhawyd gan y Swyddfa Gartref.

3. Dangosir y ffigurau ar gyfer 2023-24 cyn yr addasiad a wneir ar gyfer trosglwyddo cyllid y Gangen Arbennig, fel y'i nodir ym mharagraff 4.8 o Adroddiad Grant yr Heddlu.